

Siart Wybodaeth i Rieni/Gwarchodwyr

Beth i'w wneud pan mae fy
mhlentyn neu os ydw i fel
rhiant/gwarchodwr yn sâl yn ystod
cyfnod COVID-19?

SYMPTOMAU COVID-19

- Peswch parhaus (h.y peswch am dros awr/ 3 neu fwy o byliau o beswch mewn 24 awr)
 - Tymheredd o 37.8°C neu uwch
 - Methu blasu'n iawn
 - Methu arogl'i'n iawn

PEIDIWCH ag anfon eich plentyn (nac unrhyw blentyn arall yn eich teulu) i'r ysgol os yw'n dangos unrhyw un o'r symptomau COVID-19.
PEIDIWCH ag anfon eich plentyn (nac unrhyw blentyn arall yn eich teulu) i'r ysgol os oes gan aelod o'ch cartref symptomau COVID-19.

Os yw eich plentyn yn dangos unrhyw un
o'r symptomau hyn, ffoniwch yr
ysgol/feithrinfa i nodi ei fod yn anhwylyd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn trafod y
camau nesaf gyda chi dros y
ffôn ond mae'n rhaid i bob
aelod o'r tŷ hunanynysu nes
eu bod yn derbyn prawf
negyddol neu mewn achos
bositif bydd angen hunan-
ynysu am 14 diwrnod.

A yw fy mhlentyn yn gallu mynd i'r
ysgol os yw wedi bod mewn cysylltiad
â rhywun nad ydyn nhw'n byw gyda
nhw ond sydd â symptomau COVID-19?

Os yw plentyn wedi bod mewn
"cysylltiad" â rhywun nad ydyn nhw'n
byw gyda nhw sydd â symptomau,
dylai fynd ymlaen fel arfer hyd nes bod
yr unigolyn hwnnw'n derbyn canlyniad
ei brawf. Os yw hwn yn bositif, bydd y
tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â
phobl a nodwyd fel cysylltiadau.

Cyn i blentyn ddychwelyd i'r ysgol bydd angen
cyflwyno tystiolaeth o brawf negyddol i'r pennaeth.

All fy mhlentyn i fynd i'r ysgol gydag
annwyd?

Os nad oes gan eich plentyn
symptomau COVID-19 ond mae
ganddo symptomau eraill tebyg i
annwyd megis trwyn yn rhedeg, nid
oes angen iddo gael prawf ac nid oes
angen iddo, na chithau, hunanynysu.
Gall eich plentyn fynd i'r ysgol os
yw'n ddigon iach i wneud hynny.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council